Pecyn Dogfennau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru

carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MAWRTH, 7FED RHAGFYR, 2021**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I RHITH-GYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR AM **10.00 Y.B.** AR **DDYDD MERCHER, 15FED RHAGFYR, 2021** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Janine Owen** |
| **Ffôn (Llinell Uniongyrchol):** | **01267 224030** |
| **E-bost:** | **JanineOwen@sirgar.gov.uk** |

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 14 AELOD

**Y GRŴP PLAID CYMRU – 7 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Mansel Charles |
| 2. | Y Cynghorydd | Tyssul Evans |
| 3. | Y Cynghorydd | Ken Howell |
| 4. | Y Cynghorydd | Dorian Phillips |
| 5. | Y Cynghorydd | Susan Phillips |
| 6. | Y Cynghorydd | Eirwyn Williams |
| 7. | Y Cynghorydd | Elwyn Williams [Is-Gadeirydd] |

---

**Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Suzy Curry |
| 2. | Y Cynghorydd | Penny Edwards |
| 3. | Y Cynghorydd | Amanda Fox |
| 4. | Y Cynghorydd | Andre McPherson |

---

**Y GRŴP ANNIBYNNOL – 3 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Irfon Jones |
| 2. | Y Cynghorydd | Jim Jones |
| 3. | Y Cynghorydd | Edward Thomas [Cadeirydd] |

***DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# AGENDA


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| **3.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFODYDD YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-** | |
| **3 .1** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 16EG TACHWEDD, 2021.** | 5 - 8 |
| **3 .2** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 21AIN MEDI, 2021** | 9 - 12 |
| **4.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 23AIN MEDI, 2021.** | 13 - 18 |
| **5.** | **ADOLYGIAD O UCHAFSWM TABL PRISIAU CERBYDAU HACNAI.** | 19 - 22 |
| **6.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD** | |


**NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIADAU SY'N YMWNEUD Â'R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007 GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH AM UNIGOLYN PENODOL.**

**OS BYDD Y PWYLLGOR, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD, YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATERION HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**


| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR DANIEL JOHN VICTOR JOHNS.** | 23 - 26 |
| **8.** | **CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR EMYR WYN DAVIES.** | 27 - 30 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 16 Tachwedd 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.A. Curry, a D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:** Y Cynghorydd B.D.J. Phillips

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
D. Bizby, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb  - 10.55 yb**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - LLANDYBIE RFC, HEOL WOODFIELD, LLANDYBIE, RHYDAMAN, SA18 3UT

Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr David Andrew Thomas a Mrs Elizabeth Sarah Meinir Thomas am drwydded safle ar gyfer Clwb Rygbi Llandybïe, Woodfield Road, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3UT i ganiatáu'r canlynol:

- Cyflenwi alcohol - Dydd Sul i ddydd Iau 11:00-11:00, a dydd Gwener a dydd Sadwrn 11:00-02:00. Gŵyl San Steffan, Nos Galan a dydd Sul ar benwythnos Gŵyl y Banc 11:00-02.00.
- Oriau Agor – Dydd Sul i ddydd Iau 11:00-00:30, dydd Gwener a dydd Sadwrn 11:00-02:30, Gŵyl San Steffan, Nos Galan a dydd Sul ar benwythnosau Gŵyl y Banc, dydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Sul 11:00-01:00.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – Copi o'r cais
- Atodiad B – sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys
- Atodiad C – sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylw ar lafar gan Mr David Bizby ar ran Heddlu Dyfed-Powys a gyfeiriodd at ei sylwadau ysgrifenedig a dywedodd hefyd ei fod wedi ymweld â'r safle ym mis Hydref a chyfarfod â Mrs Thomas. Cadarnhaodd Mr Bizby nad oedd yr heddlu'n gwrthwynebu'r cais ond gofynnodd am amodau trwydded pendant fel y nodir yn Atodiad B.

O ran sylwadau Heddlu Dyfed-Powys, y manylir arnynt yn Atodiad B, nododd yr Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt yn llawn.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi cynrychiolydd Awdurdod yr Heddlu ynghylch ei sylwadau.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau ar lafar gan y gwrthwynebydd yn ail-gyflwyno'r wybodaeth a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad a'r dogfennau atodol.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon a oedd yn bresennol holi'r gwrthwynebydd ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylw ar lafar gan y Cynghorydd Dai Nicholas yn cefnogi'r cais gan ail-gyflwyno'r wybodaeth a nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad.

Yna rhoddwyd cyfle i Mrs Thomas (yr Ymgeisydd) gyflwyno'i sylwadau ac ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd. Cadarnhaodd ei bod wedi derbyn y sylwadau a wnaed gan Heddlu Dyfed Powys.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd am ei sylwadau.

Ar hynny

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan yr Is-bwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau trwydded y cytunwyd arnynt.**
**RHESYMAU:**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gan yr heddlu yn ymwneud â throseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol neu niwsans cyhoeddus ar y safle
2. Mae'r safle wedi bod ar waith fel clwb aelodau ers y 1950au
3. Nid oes unrhyw un o'r awdurdodau cyfrifol yn gwrthwynebu caniatáu'r cais
4. Mae'r Heddlu wedi gofyn am osod amodau ychwanegol ar y drwydded ac mae'r ymgeiswyr wedi cytuno i'r amodau hynny
5. Mae'r safle'n agos at sawl safle preswyl

6. Cafwyd 2 ddigwyddiad ym mis Hydref lle'r oedd gweithrediad y safle wedi achosi aflonyddwch sŵn i Ms Fane
7. Mae'r heddlu hefyd wedi gofyn am un amod pellach ynglŷn ag awr derfynol o 10.30pm ar gyfer gweithredu'r ardal allanol. Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cytuno ar hyn.

Mae'r Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol, gan fod rheidrwydd cyfreithiol arno i wneud hynny felly, mae'n rhaid i'r ffaith nad yw un ohonynt yn gwrthwynebu'r cais bwyso'n drwm ar yr Is-bwyllgor.

Mae'r Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad yw pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt.

Er ei fod yn cydnabod pryderon Ms Fane, nid yw'r dystiolaeth a roddwyd gerbron yr Is-bwyllgor ynglŷn â'r 2 ddigwyddiad ym mis Hydref yn ddigon i orbwyso barn yr Heddlu.  Byddai'r cais (os caiff ei ganiatáu) yn gosod mwy o ofynion ar weithrediad y safle nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Felly, mae'r Is-bwyllgor yn teimlo, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ger ei fron, na fyddai caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt yn tanseilio'r amcanion trwyddedu a bod yr amodau hynny'n ymateb cymesur i'r materion a nodwyd.

Nododd yr Is-bwyllgor barodrwydd Mrs Thomas i fynd y tu hwnt i ofynion amodau'r drwydded y cytunwyd arnynt a:

- Gosod arwyddion yn atgoffa cwsmeriaid i beidio â bod yn swnllyd wrth adael y safle
- Rhoi cyfeiriad e-bost cyswllt i drigolion lleol y gallant ei ddefnyddio i hysbysu'r ymgeiswyr os byddant yn wynebu problemau o'r safle.

Mae'r Is-bwyllgor yn fodlon i'r camau hyn gael eu cymryd yn wirfoddol ar hyn o bryd, er y gallent fod yn sail i amodau'r drwydded yn y dyfodol pe bai problemau'n digwydd.

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Is-bwyllgor Trwyddedu B

Dydd Mawrth, 21 Medi 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
W.T. Evans ac E.G. Thomas;

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**
Cynghorwyr P.M. Edwards a J.E. Williams;

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:-**
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu, Cyngor Sir Caerfyrddin;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Cyfarfod Rhithwir: 2.00 pm - 3.10 pm**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - ANGHARAD HOUSE, 86 AC 88A HEOL Y FRENHINES FICTORIA, LLANELLI, SIR GAERFYRDDIN, SA15 2FED**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am y weithdrefn ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd i ystyried cais gan STAYBC Ltd am drwydded safle ar gyfer Angharad House, 86 ac 88a Heol y Frenhines Victoria, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 2TH fel a ganlyn:-

Cais i Ganiatáu:

- Cyflenwi Alcohol, dydd Llun i ddydd Sul 00:00-23:59 i Breswylwyr. Dydd Llun i ddydd Sul 09:00-23:00 ar gyfer pobl nad ydynt yn breswylwyr.
- Lluniaeth hwyrnos o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 00:00 a 23:59. Preswylwyr yn unig ar ôl 23:00.
- Oriau Agor dydd Llun i ddydd Sul 00:00-23:59.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A – copi o'r cais gwreiddiol
Atodiad B - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
Atodiad C - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys
Atodiad D – sylwadau a gyflwynwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd
Atodiad E - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad a dywedodd nad oedd unrhyw gŵynion wedi dod i law mewn perthynas â safle'r cais.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at yr amodau awgrymedig a gynigiwyd gan yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, a'r ffaith bod yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt. Dywedodd pe bai'r Is-bwyllgor yn bwriadu caniatáu'r cais, ei bod yn briodol i'r amodau hynny gael eu hatodi i'r drwydded.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cafwyd sylwadau gan y Cynghorydd Sir ward leol A. McPherson a Mrs. C. Waldron, preswylydd lleol. Ailadroddodd y Cynghorydd McPherson y pwyntiau a godwyd yn ei sylwadau, fel y nodir yn Atodiad E i'r adroddiad, a gofynnodd Mrs. Waldron a fyddai'r ymgeisydd yn ystyried peidio â chaniatáu yfed alcohol y tu allan i'r safle, dim ond caniatáu cyflenwi alcohol i bobl nad ydynt yn breswylwyr rhwng 11am ac 11pm o ddydd Llun i ddydd Sul a sicrhau bod cwsmeriaid yn defnyddio'r maes parcio cefn wrth gyrraedd neu adael y safle

Rhoddwyd cyfle i bob parti holi'r Cynghorydd McPherson a Mrs. Waldron am eu sylwadau.

Ymatebodd yr ymgeisydd nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r sylwadau lleol a wnaed.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch y sylwadau a wnaed.

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron yr Is-bwyllgor, roi'r cais am drwydded safle ar gyfer Angharad House, yn amodol ar amodau'r drwydded y cytunwyd arnynt rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol a'r newidiadau dilynol canlynol y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod gan yr ymgeisydd:**

1. **Amod 8 yr Heddlu – i'w ddiwygio i ddarllen 'Ni chaniateir yfed alcohol ar ôl mewn unrhyw fannau allanol sydd y tu mewn i ffiniau'r safle.';**
2. **Dim ond rhwng 11am ac 11pm o ddydd Llun i ddydd Sul y caniateir cyflenwi alcohol i bobl nad ydynt yn breswylwyr;**
3. **Rhaid i ddeiliad trwydded y Safle, drwy ddefnyddio arwyddion priodol a darparu gwybodaeth, ofyn i bob cwsmer ddefnyddio'r maes parcio cefn wrth gyrraedd neu adael y safle**.

**RHESYMAU**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Yn flaenorol, roedd gan Angharad House Drwyddedau Safle a roddwyd yn 2005 (trwydded cyfiawnder wedi'i haddasu) a 2010. Cafodd y ddwy drwydded eu hildio yn 2017.
2. Nid oedd unrhyw hanes o erlyniadau na gweithgarwch gorfodi gan yr awdurdod trwyddedu yn y safle
3. Nid oedd cofnod o unrhyw gŵynion blaenorol i'r awdurdod trwyddedu am y safle
4. Nid oedd yr awdurdod Trwyddedu wedi derbyn unrhyw atgyfeiriadau am y safle gan awdurdodau cyfrifol eraill
5. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth o unrhyw drosedd nac anhrefn yn y safle neu'n gysylltiedig â'r safle
6. Nid oedd yr Heddlu'n gwrthwynebu'r cais ond yn gofyn am amodau trwydded ychwanegol – roedd yr ymgeiswyr wedi derbyn yr amodau hynny.
7. Nid oedd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd unrhyw gofnod o unrhyw bryderon na chwynion am niwsans cyhoeddus na diogelwch y cyhoedd yn y safle
8. Nid oedd gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus yn gwrthwynebu'r cais ond yn hytrach yn gofyn am amodau trwydded ychwanegol – roedd yr ymgeisydd wedi cytuno ar yr amodau hyn.
9. Roedd yr ymgeisydd, yn ystod y gwrandawiad, wedi cytuno ar y 3 amod trwydded ychwanegol y cyfeirir atynt uchod er mwyn mynd i'r afael â phryderon preswylwyr lleol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol ac yn benodol nododd nad oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cyflwyno sylwadau yn gwrthwynebu'r cais.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Roedd y sylwadau gan y Cynghorydd McPherson yn seiliedig i raddau helaeth ar statws cynllunio Angharad House.

Roedd paragraff 14.62 o'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu sicrhau bod cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu wedi'u 'gwahanu'n briodol' ac yn cadarnhau nad oedd pwyllgorau Trwyddedu wedi'u rhwymo gan benderfyniadau cynllunio.

Roedd paragraff 13.5 o ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn dilyn y canllawiau hyn ac yn nodi nad oedd yn ofynnol i safle fod â chaniatâd cynllunio angenrheidiol er mwyn rhoi trwydded safle.

Nododd yr Is-bwyllgor nad oedd unrhyw dystiolaeth wirioneddol wedi'i rhoi gerbron yr Is-bwyllgor i ddangos y byddai caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol yn tanseilio unrhyw un o'r amcanion trwyddedu. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth bod gweithrediad

blaenorol y safle, pan oedd wedi'i drwyddedu cyn 2017, yn tanseilio unrhyw un o'r amcanion Trwyddedu ychwaith.

Roedd yr Is-bwyllgor felly'n fodlon ei bod yn briodol rhoi'r cais yn amodol ar yr amodau trwydded ychwanegol y cytunwyd arnynt a bod yr amodau hynny'n gymesur â hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Fodd bynnag, atgoffwyd yr ymgeisydd bod materion yn ymwneud â chyfraith gynllunio yn faterion ar wahân ac nad oedd rhoi'r drwydded safle yn dileu'r angen i sicrhau bod caniatâd cynllunio priodol ar waith ac y cydymffurfiwyd ag ef. Mae'r Is-bwyllgor yn gofyn i swyddogion Trwyddedu hysbysu'r adran Gynllunio o'i benderfyniad i roi'r drwydded Safle, fel y gallai swyddogion Cynllunio fodloni eu hunain bod gweithrediad y safle yn bodloni gofynion cynllunio ac, os na wnaeth hynny, cymryd camau gorfodi priodol.

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**23 MEDI 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, S.A. Curry, W.T. Evans, J.K. Howell, H.I. Jones, A.S.J. McPherson, J.S. Phillips, J.E. Williams a D.E. Williams.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu;
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd[ Cynorthwyo];
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Weddarlledu];
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion];
T. Jones, Cyfieithydd ar y Pryd.

**Hefyd yn bresennol:**
L. Bradshaw - Cynrychiolydd - Heddlu Dyfed Powys.

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 12:15yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Edwards, A. Fox a B.D.J. Philips.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| D.E. Williams | Eitem ar yr Agenda - 7<br>Mr Dewi Penry Bowen –<br>Cais am adnewyddu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat | Mae'n adnabod y gyrrwr. |

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 7 GORFFENNAF 2021.**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2021, gan eu bod yn gywir.**

**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 13 GORFFENNAF 2021**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2021 gan eu bod yn gywir.**

## 5. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 6. MR JASON OWEN JENKINS - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

[Sylwer: Roedd Mr Jenkins yn bresennol dros y ffôn]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Jason Owen Jenkins, 38 Bro Myrddin, Caerfyrddin am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Jenkins ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Jenkins yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr Jason Owen Jenkins yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Rheswm</u>
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor, yn unol â'r Canllawiau Polisi ar gollfarnau gyrru, yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 7. MR DEWI PENRY BOWEN - CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

[Sylwer:
- Roedd Mr Jenkins yn bresennol dros y ffôn.
- Bu i'r Cynghorydd D.E. Williams ddatgan buddiant a gadawodd y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth a gafwyd wrth ystyried a phenderfynu ar yr eitem hon]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr Dewi Penry Bowen, Bridgend Cottage, Heol Llangynnwr, Llangynnwr, Caerfyrddin am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Bowen ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Bowen yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr Dewi Penry Bowen am adnewyddu yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor, yn unol â'r Canllawiau Polisi ar gollfarnau gyrru, yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**8. MR ROBERT FISHER -**
**TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Robert Fisher o 8 Heol Siloh, Llanelli, yn meddu ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat gan yr Awdurdod hwn a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Fisher ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Fisher yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr Robert Fisher yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor, yn unol â'r Canllawiau Polisi ar gollfarnau gyrru, yn fodlon bod yr unigolyn yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**9. MR DAVID IAN ELIAS -**
**CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr David Ian Elias , 27 Ffordd Talbot, Rhydaman am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Elias ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Elias yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mr David Ian Elias am adnewyddu yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor, yn unol â'r Canllawiau Polisi ar gollfarnau gyrru, yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**10. MR GLYNDWR PHILLIPS -
TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Glyndwr Phillips o 50 Heol y Gwyddau, Caerfyrddin, yn meddu ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat gan yr Awdurdod hwn a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Phillips ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Phillips yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr Glyndwr Phillips yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor, yn unol â'r Canllawiau Polisi ar gollfarnau gyrru, yn fodlon bod yr unigolyn yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**11. MISS DEBORAH THERESA MATTHEWS -
CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Miss Deborah Theresa Matthews o Fflat 2, Heol yr Orsaf, Porth Tywyn am adnewyddu ei Thrwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Miss Matthews ynghylch ei chais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Miss Matthews yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod cais Mrs Deborah Theresa Matthews yn cael ei ganiatáu a'i bod yn cael rhybudd ynghylch ei hymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor, yn unol â'r Canllawiau Polisi ar gollfarnau gyrru, yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**12. MR WILLIAM JOHN SPREADBURY -**
**TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr William John Spreadbury o 9 Heol yr Orsaf, Sanclêr, yn meddu ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat gan yr Awdurdod hwn a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Spreadbury ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Spreadbury yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, roi rhybudd terfynol i William John Spreadbury ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Rheswm</u>
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor, yn unol â'r Canllawiau Polisi ar gollfarnau gyrru, yn fodlon bod yr unigolyn yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**13. MR JASON LEE DAVIES -**
**CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

[Sylwer: Roedd Mr Davies yn bresennol dros y ffôn.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr Jason Lee Davies , Fflat 1, Y Felin, Ffordd Glannant, Caerfyrddin am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Davies ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Davies yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, roi rhybudd terfynol i Mr Jason Lee Davies ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Rheswm</u>
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor, yn unol â'r Canllawiau Polisi ar gollfarnau gyrru, yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**14. MR ABDULLA ALYUFRUSI -**
**CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Abdulla Alyufrus o 1 Parcllynbach, Abercych, Boncath am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Alyufrus ynghylch ei gais a'r materion a godwyd gan yr Uwch-swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Alyufrus yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, wrthod cais Mr Abdulla Alyufrus am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat.**

<u>Rheswm</u>

Yn unol â pholisi Cyngor Sir Caerfyrddin, gwrthodwyd y cais gan nad oedd y Pwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i gael trwydded.

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

# Y PWYLLGOR TRWYDDEDU
# 15 RHAGFYR 2021

## Y PWNC A'R PWRPAS
**Adolygiad o Uchafswm Tabl Prisiau Cerbydau Hacnai**

## YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Ad-drefnu'r uchafswm tabl prisiau presennol ar gyfer teithiau Cerbydau Hacnai i ddarparu ar gyfer yr argostau cynyddol i berchenogion tacsis.

Os bydd aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu yn penderfynu bod ad-drefnu prisiau tacsis yn briodol, bwriedir gwneud newidiadau i'r tabl prisiau presennol a chyhoeddi'r cynigion yn y papurau newydd lleol, gan roi 14 diwrnod i unrhyw un i gyflwyno gwrthwynebiadau, yn unol ag Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau, caiff y tariffau eu rhoi ar waith.

## Y RHESYMAU:

Darparu tariff wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cerbydau Hacnai yn yr Awdurdod.

| | |
|---|---|
| **Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol** | **AMHERTHNASOL** |
| **Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad** | **AMHERTHNASOL** |
| **Angen penderfyniad gan y Cyngor** | **AMHERTHNASOL** |

**Yr Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y Portffolio: Y Cynghorydd P.M. Hughes**

| **Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau** | **Swydd:** | **Rhif ffôn:** |
|---|---|---|
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth** | | **Cyfeiriad e-bost:** |
| **Mr Jonathan Morgan** | **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel** | **01554 899285**<br>**jmorgan@sirgar.gov.uk** |
| **Awdur yr Adroddiad**<br>**Mr Justin Power** | **Uwch-swyddog Trwyddedu** | **01267 228932**<br>**JHPower@sirgar.gov.uk** |

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

# EXECUTIVE SUMMARY
# Licensing Committee
# 15TH DECEMBER 2021

**SUBJECT**

## Review of Hackney Carriage Maximum Table of Fares

**As a result of the increasing overheads incurred by the Taxi trade, an application has been received to increase the current maximum table of fares.**

**<u>The following proposal is presented for consideration: -</u>**

**<u>CURRENT HACKNEY CARRIAGE MAXIMUM TABLE OF FARES</u>**

| | Tariff1 6am-10pm | Tariff2 10pm– 3am | Tariff 3 3am-6am |
|---|---|---|---|
| Initial Charge | £2.20 | £2.40 | £2.40 |
| Additional mileage for each one tenth of a mile or part thereof | £0.20 | £0.25 | £0.30 |
| Waiting time (per minute) | £0.20 | £0.25 | £0.30 |

A Tariff 2 surcharge on the meter shall apply on Sundays, Public and Bank Holidays and nightly after 10.00 pm until 3.00 am.

A Tariff 3 surcharge on the meter shall apply from 3.00am until 6.00am

Note that Operators wishing to commence the operating period for Tariff 2 fares later than 10.00 pm and Tariff 3 later than 3am will be required to display this information in their table of fares in each vehicle.

| Extra charges (Optional) | |
|---|---|
| Contamination fee for fouling of vehicle | £50.00 |
| Booking Fee (where journey commences more than 5 miles from operators base) | £ 3.00 |
| Vehicles carrying 5-8 passengers. For each passenger exceeding FOUR | £0.25 each |

Double Tariff1 on the meter shall apply on all hiring’s commencing on Christmas Day and New Year’s Day.

**PROPOSED FARE**

| | Tariff1<br>6am-10pm | Tariff2<br>10pm– 3am | Tariff 3<br>3am-6am |
|---|---|---|---|
| Initial Charge | £2.80 | £3.00 | £3.00 |
| Additional mileage for each one tenth of a mile or part thereof | £0.20 | £0.25 | £0.30 |
| Waiting time (per minute) | £0.20 | £0.25 | £0.30 |

A Tariff 2 surcharge on the meter shall apply on Sundays, Public and Bank Holidays and nightly after 10.00 pm until 3.00 am.

A Tariff 3 surcharge on the meter shall apply from 3.00am until 6.00am

Note that Operators wishing to commence the operating period for Tariff 2 fares later than 10.00 pm and Tariff 3 later than 3am will be required to display this information in their table of fares in each vehicle.

| Extra charges (Optional) | |
|---|---|
| Contamination fee for fouling of vehicle | £60.00 |
| Booking Fee (where journey commences more than 4 miles from operators base) | £ 5.00 |
| Vehicles carrying 5-8 passengers. For each passenger exceeding FOUR | £1.00 each |

Double Tariff1 on the meter shall apply on all hiring's commencing on Christmas Day and New Year's Day.

| **DETAILED REPORT ATTACHED?** | **Yes** |
|---|---|

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

## CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities**

**1.Local Member(s):**

In accordance with Section 65 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, the amended fare table will be published in the local newspapers giving 14 days for any persons to submit objections.

**2.Community / Town Council:**

In accordance with Section 65 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, the amended fare table will be published in the local newspapers giving 14 days for any persons to submit objections.

**3.Relevant Partners:**

In accordance with Section 65 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, the amended fare table will be published in the local newspapers giving 14 days for any persons to submit objections.

**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**

In accordance with Section 65 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, the amended fare table will be published in the local newspapers giving 14 days for any persons to submit objections.

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Review of Hackney Carriage Fares | | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(s) 12 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol